Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

National Assembly for Wales
Business Committee

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Ionawr 2017

Annwyl Huw

**CODAU CYFRAITH CYMRU**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o ddatblygiadau sy'n ymwneud â chydgrynhoi cyfraith yng Nghymru, yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol blaenorol ym mis Hydref 2015, Deddfu yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno Rheol Sefydlog ar Filiau cydgrynhoi.

Mewn ymateb, nododd Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Comisiwn y Gyfraith i gynnal prosiect cynghori ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru.  Felly, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn egwyddor, gyda'r bwriad o aros am ganfyddiadau'r prosiect cyn llunio gweithdrefn y Cynulliad i ystyried Biliau Cydgrynhoi.

Yn dilyn hynny, ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru. Ar 13 Rhagfyr 2016, nododd y Cwnsler Cyffredinol fwriad Llywodraeth Cymru i "gychwyn prosiect o gyfuno, codeiddio a gwell cyhoeddi ar y gyfraith fel cynllun arbrofol, i gael ei werthuso tuag at y flwyddyn nesaf".  Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol ataf hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith fod

yn rhaid cael gweithdrefnau addas yn y Cynulliad er mwyn i gydgrynhoi a chodeiddio weithio'n effeithiol. Rwyf wedi atodi copi o lythyr y Cwnsler Cyffredinol yn Atodiad 1.

Yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai swyddogion ailddechrau gwaith ar ddatblygu cyfres o weithdrefnau cydgrynhoi.  Bydd datblygu gweithdrefnau o'r fath yn fanteisiol wrth ystyried gweithdrefnau cydgrynhoi mewn cyrff seneddol eraill, yn ogystal â chydweithio rhwng swyddogion y Cynulliad a'r Llywodraeth.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd wedi nodi dymuniad i gydweithio nid yn unig ar faterion gweithdrefnol ond hefyd y broses o godeiddio cyfraith yng Nghymru yn fwy cyffredinol.  O ystyried gwaith blaenorol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y maes hwn, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn nodi a yw eich Pwyllgor yn meddwl cynnal ystyriaeth bellach o'r mater hwn?

Yn gywir

**Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad**
**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**